WG35.5.32

# MARWNAD

Ar y Parchedig

## Mr. WILLIAM DAVIES

O

## *GASTELL NEDD*;

Yr hwn a ymadawodd a'r Byd, Ddydd Gwener y 17 o Awst, 1787.

Yn y Driugeinfed Flwyddyn o'i Oed,

Ac a gladdwyd ym Mynwent *Castell Nedd*;

Wedi treulio tros 30 o Flynyddau i bregethu Efengyl Crist ymhlith y *Methodistiaid*:

ynghyd â

Rhai Gwersi i eraill a fuant feirw yn yr Arglwydd.

---

Gan WILLIAM WILLIAMS.

---

ESTC t129382

TREFECCA:
ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYN
M,DCC,LXXXVII.

# MARWNAD, &c.

1 PA'M y mae'r medelwyr bywiog
Yn ffarwelo a'r maesydd ŷd ?
Fel pe byddai bro a brynniau
Wedi eu casglu'n gryno ynghyd ;
Pa'm y diangc y rhai gwrol ?
Pa'm y rho'nt eu harfau 'lawr ?
Fel pe byddai wedi darfod
Ddyddiau'r rhyfel yma 'nawr.

2 Pan mae 'redig, hau a chwynnu,
Medi, a chludo'r 'sgubau'n dwrr ?
Heddyw'n llanw bro, a blaenau
Brydain, a thu draw i'r d'wr ;
Pan mae rhyfel yn cynhyddu,
Pan mae saethau blin heb ball
O un cwrr i'r gwersyll tanbaid,
Yn ehedeg draw i'r llall.

3 De' a gogledd sydd i'w galw,
Dwyrain a gorllewin bell ;
Ni bydd cwrr o'r ddae'r heb glywed
Atsain y newyddion gwell ;
Rhaid cael gweithwyr i'r cynhauaf,
Mae e'n helaeth, mae e'n fawr
Ddalio'r gwres, ac ddalio'r lludded,
Ac heb ddodi clyn i lawr.

4 Pa'm y tynnodd angau diriaid
*Ddavies* fwyn oddi wrth ei waith ?

Pwy

Pwy ſy' i gario 'mlaen ei yſtod
Addfed ar y maeſydd maith?
Pwy heb flino megis yntau
Ac heb orphwys gaſglo ynghyd?
Yn ddiachwyn, yn ddiduchan,
Feichiau mawrion trymion ŷd.

5 Y mae'r nefoedd fawr yn trefnu
Oll fel mynno hi ei hun;
Ac nid yw hi'n gofyn cynghor
Nac i angel, nac i ddyn;
Pethau dirgel nid i'w chwilio
Ydyw cwnſel Duwdod mawr;
Synnu, caru, a rhyfeddu,
Yw dyledſwydd llwch y llawr:

6 Y mae'n droſedd i ni ofyn
Pa'm 'raeth *Davies* ſwyn i'r nef?
Pa'm mae'n aros yma lawer
Llai defnyddiol nac oedd ef;
Dae'r a nef, ſy' wrth amnaid—Duwdod,
Byw a marw ſy'n ei law;
Pob digwyddiad 'gylch y ddaear
Yw ei drefniad yma a thraw.

7 Dyn na chwilied i ddyfnderoedd
Dirgel gwnſel Tri yn Un;
Myrdd o bethau ſy ar y ddaear,
Pa'm, ŵyr neb ond ef ei hun?
Ni all rheſwm dall ei ganfod
Dim o gamrau ei ſanctaidd droed,
Ac ni wel 'mo lygad nattur
Pa'm mae pethau'n llyn yn bod.

8 'Roedd yr awr, a'r lle, a'r cyſtudd,
A'r cymdeithion oedd ynghyd,
Pan y trawodd angau *Davies*
Wedi ei drefnu cyn bod byd;

Nid oedd physic, nid oedd medswn,
Nid oedd meddyg is y nef
Pe buasent fil o filoedd
Yn abl cadw ei fywyd ef.

9 Yn ei rym, ac yn ei hoywder,
Galwyd ffrynd y nef i'r lan;
Trugain mlynedd ar y ddaear,
Drefnodd arfaeth yn ei ran;
Yno 'roedd rhaid iddo newid
Ei berth'nasau, ei ffryns, a'i le,
A rhoi ei gorph i'r ddae'r i gadw
Nes glanhau 'i fydreddi e'.

10 *Castell Nedd* mewn Mynwent ehang
'Roedd rhaid iddo lechu 'lawr;
Lle mae dengmil neu fyrddiynau
Yn ei gwmpni ef yn awr;
Ond 'fe gwyd wrth lais yr angel,
Bloedd yr udgorn gryna'r byd,
O'i holl lwch ble benna taenir
Gasglir yno yn gryno ynghyd.

11 Ond ei enaid ef esgynodd,
Yn llaw Seraphim i'r lan;
Ac 'fe gafodd byrth y ddinas
Yn agored yn y fan;
"Groeso 'mewn ti fendigedig,"
Ebe'r Brenhin rodd ei waed;
"A pherchnoga'r wlad it' roddwyd,
"Cyn bod daear gan fy Nhad."

12 'Ti mewn llafur, ti mewn lludded,
Ti yn eitha gwres a gad;
Swm dy athrawiaethau cywir
Oedd fy iachawdwriaeth rad;
Buost ffyddlon, buost ddiwyd,
Buost syml onest iawn,

Ni

Ni w'radwyddaist fy efengyl
Foreu'th fywyd na phrydnawn.

13 Ti ddioddefaist pan fai gwasgfa,
Ac er clywed 'roit' yn fud;
Ni ddialeddaist, ac ni thalaist
Ddrwg am ddrwg i neb o'r byd;
Oen diniweid, distaw, tyner,
Diddadleugwr, a di'stŵr,
Ymhob terfysg a gwrthryfel,
Y llarieiddiaf ffeiniaf ŵr.

14 Cariad oedd dy fwyd a'th ddiod,
Serchog oedd dy eiriau gyd;
Dy addfwynder sugnodd yspryd
Rhai o oerion blant y byd;
Treuliaist d' amser mewn ffyddlondeb,
Trwy dy yrfa îs y nen;
Mae dy goron genni' nghadw,
Heddyw cymmer hi ar dy ben.

15 D'est i mewn i wlad o heddwch
Gas ei sylfaen cyn bod byd;
Perffaith gariad, a llawenydd
Sy' yma yn teyrnasu gyd;
Ni ddaw tristwch mud a galar
Poen, nag ofon nag un wae,
I dy flino, canys heddwch
Sy yma fythol yn parhau.

16 Ti gai dreulio tragywyddoldeb
Maith di-ddiwedd yma'n rhad;
Yfed o ffynhonnau cariad
Dardd o honof fi a Nhad;
Edrych, synnu, ar ddyfnderoedd
Dwyfol gariad Tri yn Un,
Drefnodd prynu myrdd myrddiynau
A dy hunan ydoedd un.

17 Fil o weithiau darfu it' ofni
Dy bechodau ffiaidd câs ;
Ofni gan eu grym a'u nifer
Na chait' fyth i gario'r maes :
Ond fe'i rhwymwyd hwy mewn cadwyn
Oedd gadarnach na'u holl lid,
Yn yr awr ar ben *Calfaria*
Bum i farw tros y byd.

18 Swm dy euogrwydd a feddyliaist
Gan-waith fod yn fwy na'r Ne' ;
A gymm'rais arnaf fi fy hunan
Ac a delais yn dy le ;
Fe foddlonodd nefoedd i mi,
'Nawr mae 'i phyrth hi nos a dydd
Yn llawn agor, i rhai hynny
'Rodd fy Yspryd i yn rhydd.

19 Derbyn bellach d' Enw newydd,
Newydd bethau fy yma 'gyd ;
Fyrdd o weithiau fy'n rhagori
Ar ddim enwau fy'n y byd ;
Merch y Brenhin mawr anfeidrol,
Ddest fod felly trwy fy nghlwy,
Priodas-ferch tywysog bywyd,
Fydd dy enw bellach mwy.

20 Ti gai aros mil neu ddwy-fil
O flynyddau yn fy hedd,
Cyn i'm alw'th gorph i fynu,
Sydd yn gorwedd yn y bedd ;
Ond pan dêl, bydd fel yr haulwen,
Heb un pechod ynddo'n fyw ;
Ac fe dderbyn d'enaid cannaid,
Bellach fyth ar ddelw Duw.

21 Dyma'r modd, medd fy nychymmig,
Y groesawyd ef i'r nef ;

I blith

I blith miloedd o rai perffaith,
Ag oedd yn ei 'nabod ef;
*Whitefield*, *Davies* ſwyn, a *Harris*,
A phregethwyr gwreſog iawn,
Wedi gorphen ar eu llafur,
Er y cynnar hir brydnawn.

22 *Richard Hughes* a welodd e' yno,
Deithiodd holl fynyddau maith,
*Arfon* arw, a *Meirionydd*,
*Flint* a *Dinbych* lawer gwaith;
Ac amgylchodd dir y deheu
Gyd âg awel bur y Ne',
Fel dyn addfed i'r wlad nefol,
'Chydig cyn ei ſymmud e'.

23 * *Pecwel* yntau a'i groeſawodd,
Wr ffyddlona erioed a gaed,—
Newydd fyn'd, a newydd ddyſgu
Pur ganiadau'r nefol wlad;
Wedi gadael *Llundain* boblog
Dengmil ynddi'n athriſt iawn,
Heb un gobaith mwy o'i glywed
Fyth, na boreu na phrydnawn.

24 Deugain agos o bregethwyr
Oedd e'n 'nabod yn y nef,
Ac fu'n ſeinio'r jubil hyfryd,
Yn ei ddyddiau byrrion ef;
Oll a'u t'lynau aur yn canu,
Yr un meſur a'r un gân,
Ac a ganodd y côr nefol
I'r bugeiliaid gwych o'r blaen.

25 Fe gyfarfu a gwragedd ſerchog
Cywir, diwair fu'n y byd,
Yn famhaethod pur i'r Eglwys,
Yno yn moliannu 'nghyd;

* HENRY PECWEL, D. D. Ficar Blaxham yn Sir LINCOLN.

Mrs.

Mrs. *Watkins*, *Pal* o'r *D'ryſwyn*,
*Priſi* yn eu plith hwy gad,
Wedi cannu eu mantelli,
Fel yr eira yn y gwaed.

26 Fy nychymmyg ſydd yn haeru,
Iddo weled maes o law,
Ymhlith myrddiwn pur o wragedd,
Hôff *Jane Jones* o'r *Bala* draw;
Wedi derbyn myrdd o wobrau,
Am y myrdd o ſeigiau llawn,
Rodd hi i'r pregethwyr ffyddlon,
Oedd yn paſſ'o foreu a nawn.

27 Chwe'-chant leia oedd hi'n ſwyda
Bob rhyw *Aſſoſiaſiwn* fawr;
Gwyr a gwragedd, meibion merched,
Llanw'r lloft, a llanw'r llawr,
Aeth ei chariad a'i lyſenni
Yn finteoedd ar ei hol,
Ac 'fe gym'rodd y côr nefol
Hi a hwythau yn eu côl.

28 Ac mae heddyw yn ffieiddio
Dim ymddiried dirgel fu,
Ganddi ar ei holl haelioni,
I bwrcaſu gwobr fry;
Dim ond Ieſu ſy'n ei meddwl,
Duw'n Diodde' aeth a'i bryd,
Cariad, heddwch, a llawenydd
Sy'n ei llanw 'nawr i gyd.

29 D'wed fy ffanſi bod hi'n erfyn
Tros ei phriod ſy'n y byd,
Os prioda, i gael mammaeth
F'o i'r eglwyſi'n ſammaeth glŷd;
Addfwyn, iſel, oſtyngedig,
Wnelo o'i feddiannau'n ffri,

Fel

Fel derbyniont hwynt eich deuodd,
Yno 'mewn i'r man mae hi.

30 'Fe ga's gweled yno Abra'm,
Wr ffyddlona gawd erioed ;
Isaac unwaith fu ar yr allor,
Yn etifedd oedd i fod ;
Jacob a orchfygodd angel ;
Joseph fu'n y pydew 'lawr ;
Hwy a'u hîl grediniol ffyddlon,
'Nawr o fewn y ddinas fawr.

31 'Fe ga's gweled mil o filoedd,
O ferthyron c'lonnog hŷ,
Aeth trwy ddioddefiadau mawrion,
Ar eu taith i'r nefoedd fry ;
Maith amrywiol oedd eu poenau,
Congcwerasant oll trwy ffydd,
Y maent yno heddyw'n canu,
Wedi myn'd yn hollol rydd.

32 'Fe ga's gweled *Paul* lafurus,
Lanwodd 'byd a'i 'fengyl bur ;
*Ioan* garodd Iesu'n fwyaf,
Pan oedd yn yr anial dir :
'Fe ga's gweled *Pedr* g'lonnog,
Taran anghrediniol rai ;
Ac *Apolos*, pan y plennid
Efengyl, fyddai'n dyfrhau.

33 'Fe ga's gweled Mrs. *Edward*,
O *Abermeirig* gynnes glŷd ;
A wnaeth defnydd o'i thalentau,
Hyd yr eitha' yn y byd ;
Am ei rhyfedd garedigrwydd,
A llettya myrdd o faint,
Yno'n derbyn mawr ogoniant,
Nad oes neb fynega ei faint.

34 Ffynnon bywyd oedd hi'n yfed,
Heb ddim triſtwch na dim poen;
Cariad dwyfol anrhaethadwy,
Duw a'r croeſhoeledig Oen;
Treulio deng mil o flynyddau
Mawrion meithion gyd â ni,
Megis munud fach yw hynny
Heddyw yn ei chyfri hi.

35 Ac ni chym'rai India'r dwyrain,
Ar gorllewin fawr am ddod,
Yma i'r ddaear lle mae Satan,
A'i biccellau tân yn bod;
Colli'r preſennoldeb dwyfol
Ddim ond hanner munud awr,
Fyddai'n golled gan yr addfwyn,
Fwy na chollir ddaear fawr.

36 Ond rhyfeddu'r ydwyf bellach,
P'odd 'ry'm ni'n cael aros cyd,
Yn yr anial mae gelynion
Yn byddino'n dorf ynghyd;
Myrdd o demtaſiynau tanllyd,
A rhai'n beunydd yn parhau,
A phob rhwyd a myrdd o edau,
Uffern ddyfwn yn eu gwau.

37 Etto rhaid in' aros gronyn,
I hela praidd o'i tyllau maes;
Rhaid pyſgotta'r llynnoedd dyfnion,
Y mae'r rhwydau etto'n llaes;
Mae'n rhaid chwilio a lanterni,
Holl gornelau Cymru lawn,
I gael allan briod Ieſu,
O locheſau dyrus iawn.

38 Er i'n golli *Davies* ffyddlon,
Cyfyd Duw ſaith yn ei le;

Ac

Ac arweinio gaethion Babel,
Yn ſinteoedd maith i dre ;
Y cloff, y dall, a'r feichiog ofnus,
Hi ſy'n eſgor ar unwaith ;
Ddilyn troed bugeiliaid c'lonnog,
Trwy'r anialwch dyrus maith.

39 Mae'r deheudir fawr yn feichiog,
Hi gaiff eſgor yn y man ;
Rhaid bydwragedd, rhaid mammaethod,
I ymgeleddu'r eppil wan ;
Par y nef i'r ddaear dyfu,
Rhaid crymanau' ſedi'r ŷd ;
Rhaid bugeiliaid gwych i'w gadw,
Cludwyr da i'w gaſglu ynghyd.

40 Mae'r athrawon ſy'n amgylchu,
Cymru yn eu rhwyſg a'u grym ;
Gan y gwres, y chwŷs, a'r lludded,
Bron a threulio eu nerth yn ddim ;
Rhaid cael bechgyn gwrol bellach,
Wedi eu gwneud o loyw brês,
Allo ddiodde'r rhew a'r eira,
Gwyntoedd 'ſtormus, tarth â gwres.

41 Mi debygwn mod i'n clywed,
Pur ganiadau'r addfwyn Oen ;
O *Blynlymon* faith ei ſylfaen,
I *Gaergybi* draw yn *Môn* ;
Y mae adſain fwyn *Calfaria*,
Tros yr *Wyddfa* wenn ei brig,
I ni'n tyſtio nad yw'n Harglwydd
Ddim wrth Wynedd heddyw'n ddig.

42 Na alarwch mwy am *Ddavies*,
Ond dihattrwch at eich gwaith ;
Y mae'r maeſydd mawr yn wynnion ;
Mae llafurwaith Duw yn faith ;

Pob un bellach at ei araf,
Aml yw talentau'r nef,
Sawl sy'n ffyddlon gaiff ei dalu,
Ar ei ganfed ganddo ef.

43 Doed i wared i'r deheudir
Ddoniau gwynedd fel yn lli;
Aed torfeydd o dir y dehau
Trwy *Feirionydd* fynu fry;
Fel b'o cymmysg doniau nefol
Yn rhoi'r gwleddoedd yn fwy llawn;
Falau a phottelau llawnion
O las foreu hyd brydnawn.

44 'Rwy'n rhoi cynghor byrr i'w briod,
Gafodd golled uwch ei ffydd,
'Mofyn rhagor o gyfeillach
Pur â'r Iesu mawr bob dydd;
Fyth ni sugna laeth yr Eglwys,
Trwy un moddion îs y Ne',
Ond trwy aros mewn cymmundeb,
Glan nefolaidd ag efe.

DIWEDD.